

Cwpan Efe

Daeth noson Cwpan Efe yn noson go bwysig i blant yr Ysgolion Sul ers sawl blwyddyn, ac mae dyddiad y noson wedi ei osod ar gyfer eleni.

Cynhelir y gystadlueaeth bel droed 5 yr ochr hon ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau, Mehefin

Mae'r gystadlueaeth ar gyfer ysgolion Sul cylch Efe, ond mae croeso cynnes i ysgolion Sul o gylch ehangach i gymryd rhan. Plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 fydd yn cymryd rhan eleni eto.

Ceir rhagor o fanylion gan Andrew Settatree (07929 916 181).

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Dydd Mercher, Mai 27: 'Dechreuadau' - y pedwerydd sesiwn, ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 31: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mai 31: Gwasanaethir am 10.00 gan Mr Gwilym Charles Williams,

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Mai 31

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Mehefin 7

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. -

Llandudno ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 31: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Mai 28: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 31: Ni fydd Ysgol Sul. Cynhelir oedfa am 2.00 o'r gloch — manylion i'w cyhoeddi eto.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 18: Cynhelir y 'Te Bach' am 2.30 o'r gloch. Hwn fydd yr olaf tan fis Medi.

Nos Wener, Mai 29: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 31: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mehefin 5: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch. (Sylwch nad oes cyfarfod yr wythnos hon.)

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 24

10.30 a.m. - Y Gweinidog
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Mai 31

10.00 a.m. - Mr Gwilym C Williams
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Mehefin 7

10.00 a.m. - Mr W M Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. -



Gronwyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 639: Y Sulgwyn, 24 Mai, 2015

Yn y cefndir

Bosib iawn mai arferiad sy'n gyfrifol amdano, ond anaml iawn y byddaf fi'n cloi oedfa heb ddweud geiriau'r 'Gras'. Yn ôl a ddarllenais mewn mwy nag un lle yn ddiweddar, byddai ambell un yn feiriadol o'r arfer hwnnw gan eu bod o'r farn bod defnyddio'r un geiriau ar ddiwedd pob oedfa yn arwydd sicr o ddiffyg dychymyg ac o ddiogi mawr. Wn i ddim faint ohonoch a fyddai'n cytuno â'r farn honno ac a fyddai'n croesawu rhywfaint o amrywiaeth i'r geiriau a ddefnyddir ar ddiwedd oedfa!

Beth bynnag am hynny, un peth pwysig y mae dweud neu weddio'r Gras yn ei wneud yw sicrhau bod ym mhob oedfa o leiaf un cyfeiriad at y gwirionedd mawr am Dduw – ei fod yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân. Caiff Duw'r Tad ei gyfarch ym mhob oedfa, diolch am hynny. Sonnir hefyd am Iesu Grist ym mhob oedfa, a gobeithio'n fawr mai'r dyn go iawn sy'n wir Fab Duw hefyd a gaiff ei gyflwyno gennym. Ond mae trydydd person y Drindod, neu drydydd person y Duwdod, yn cael llawer llai o sylw. Ai gwir dweud na fyddai'n cael ei grybwyll o gwbl mewn aml i oedfa oni bai bod yna gyfeiriad ato mewn ambell emyn? Rydym yn dadedog yn aml ynglŷn â'r Ysbryd Glân, ac mae geiriau'r Gras o leiaf yn ein hatgoffa amdano.

Mae'r Sulgwyn wrth gwrs yn gyfle i'r Eglwys Gristnogol ddathlu tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddisgyblion Iesu Grist wedi iddo ef eu gadael a chael ei

ddyrchafu'n ôl at ei Dad. Mae'n gyfle nid yn unig i edrych yn ôl a chofio'r hyn a ddisgyblodd yn nyddiau cynnar yr Eglwys ond hefyd i ddathlu'r ffaith fod yr Ysbryd Glân yn parhau i arwain ac i nerthu'r Eglwys heddiw.

Ar y Sulgwyn heddiw, felly, diolchwn o'r newydd am yr Ysbryd a'i waith. Person yw'r Ysbryd Glân, yn union fel y mae Duw'r Tad a Duw'r Mab yn berson. Diolchwn am yr hyn y mae'n ei wneud, a gweddiwn y bydd ei waith yn cryfhau ac yn llwyddo fwyfwy bob dydd. Ond os cawn ni'r fraint o weld yr Ysbryd Glân ar waith, un peth y gallwn fod yn sicr ohono yw na fyddwn yn sylwi'n ormodol arno fo ei hun gan mai person sy'n dewis bod yn y cefndir yw'r Ysbryd. Nid swildod sy'n gyfrifol am hynny. Doedd dim arwydd o swildod wrth iddo ddisgyn ar y disgyblion ar ddydd y Pentecost. Gellid dweud iddo wneud digon o sôn amdano'i hun y diwrnod hwnnw, rhwng sŵn y gwynt mawr a'r tafodau tân! Ond eithriad oedd hynny er mwyn ei gwneud yn gwbl amlwg ei fod wedi dod. Fel arfer, mae'n dewis bod yn y cefndir am y rheswm syml ei fod eisiau i'r Arglwydd Iesu Grist gael y sylw a'r clod i gyd.

Nid yw'r Ysbryd Glân yn tynnu sylw ato'i hun. Nid yw'n dymuno i ninnau wneud gormod o sylw ohono. Ond gallwn fod yn sicr o un peth: os yw'r Arglwydd Iesu'n cael ei anrhydeddu yn ein heglwys ac yn ein bywydau, yr Ysbryd Glân sydd wrth ei waith!

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.30 gan y Gweinidog. Diolch i Susan ac Andrew am eu rhan yn yr oedfa hefyd.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Gweddiwn am gynhaliath ac adferiad i gyfeillion ac aelodau'r eglwysi.

Cymanfa Flynyddol

Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda

Roedd Capel Carmel Llanllechid yn fwrwm o swm plant fore Sul, 17 Mai. Yn wir, roedd llawr y capel yn llawn o blant ac oedolion ar gyfer y Gymanfa flynyddol, a'r capel wedi ei addurno'n lliwgar gyda gwaith y plant yn cael lle amlwg.

Cychwynnwyd y gweithgareddau gyda gair neu ddau o groeso gan lywydd y cyfarfod, sef Elin Mair Jones, merch ifanc o Garmel, cyn iddi wahodd plant a phobol ifanc Carmel i ymgymryd â'r rhannau arweiniol. Dechrau ardderchog i'n rhoi yn y cywair priodol ar gyfer gweddill y cyfarfod.

Yna cyflwynodd Elin yr arweinydd cerddorol, Mrs. Valerie Ellis o Eglwys Pendref, a'r gyfeilyddes, Mrs. Rhian Roberts, o Garmel, ac fe gafwyd canu bywiog gan y plant a'r oedolion o dan arweiniad Mrs. Ellis.

Yn ystod y cyfarfod gwobrwywyd 79 o blant a phobol ifanc am eu gwaith yn yr Ysgolion Sul ar hyd y flwyddyn. Derbyniodd pob un ohonynt dystysgrif ynghyd â gwobr ariannol o ddwylo'r trysorydd, Mr Joe Hughes. Diolch i'r arholwyr, Mrs Marian Jones, Carmel, Mrs Eirian Jones, Nant y Benglog, a Miss Iona Jones, Peniel, Waen Pentir, am ymweld â'r Ysgolion Sul ym Methlehem Talybont, Carmel Llanllechid, a Phendref/Penuel, Bangor, i gloriannu gwaith y plant.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y Gymanfa gan yr Ysgrifennydd, Mr Neville Hughes, cyn i'r cyfarfod ddod i ben ar nodyn uchel gyda Mrs Valerie Ellis yn ein harwain i ganu, a dyblu cytgan yr emyn adnabyddus, 'Cân Hosanna'.

Coleg y Bala

Aeth criw o ysgolion Sul Llanberis a Llanrug ar eu taith flynyddol i Goleg y Bala y penwythnos diwethaf, Mai 15-17. Daeth rhyw 18 o'r ddwy ysgol Sul, yn ogystal ag athrawesau, i fwynhau penwythnos llawn hwyl a sbri, ond efo neges bwysig iawn am Iesu Grist. Wedi i bawb gyrraedd a gweld eu llofftydd, cawsom ein croesawu i'r Coleg gan Nia Williams, trefnydd y cwrs, a'n cyflwyno i Jack ac Ariela, rhai o'r myfyrwyr blwyddyn gap, yn ogystal â chlywed y rheolau. Wedi hynny, cawsom swper cyn mynd i'r Capel am sesiwn hwyliog o gemau a drefnwyd gan Jack ac Ariela. Thema'r cwrs oedd 'Arch-arwyr', ac felly rhannwyd y plant yn ddau dîm, 'Hulk' a 'Capten America'. Bu cystadlu brwd trwy gydol y penwythnos i ennill y wob! Wedi'r gemau nos Wener, cafwyd egwyl ac yna noson gwis a thalent. Daeth y diwrnod i ben efo ffilm fer 'Veggie Tales' sydd bob amser yn ffefryn gan blant Bro'r Eco!

Ar ôl codi a chael brecwast fore Sadwrn, cawsom Sesiwn 1, a dysgu mai Iesu Grist yw'r Arch-arwr mwyaf a gaed erioed oherwydd ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Ar ôl hyn, cawsom ginio cyn mynd i'r Ganolfan Hamdden i nofio. Ar ôl dod yn ôl i'r Coleg, cafwyd amser crefft ar thema Arch-arwyr. Wedi swper, yn Sesiwn 2, dysgom ni am Iesu'n cerdded ar y dŵr. Wedi hynny, cawsom ddysgu ychydig bach gan Ariela am ei mamwlad, Patagonia, yn yr Ariannin. Roedd hwn yn sesiwn diddorol iawn, a chawsom gyfle i weddio dros ei gwlad hi yn ogystal â thros Nepal ac Ethiopia. Cawsom wyllo'r ffilm *Paddington* cyn mynd i'r gwely ar ddiwedd diwrnod prysur.

Ar ôl cael brecwast fore Sul, a phacio a chlirio, cawsom y sesiwn olaf, Sesiwn 3, a dysgu am y deg dyn gwahanglwyfus, a'r ffaith mai dim ond un a ddaeth yn ôl

i ddweud diolch wrth Iesu. Y cwestiwn i ni oedd: 'I bwy ydyn ni'n debyg - y naw dyn anniolchgar neu'r un dyn diolchgar?'

Ar ôl cinio, ymadawon ni â'r Coleg wedi penwythnos hwyliog iawn.

Diolch yn fawr i Andrew Settatree am fynd efo'r plant i'r Bala unwaith eto, ac yr adroddiad hwn.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm Casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn Neiniolen eleni oedd £800. Diolch yn fawr iawn i Neville a Jane Thorman Jones am drefnu'r cyfan eleni eto; diolch i'r casglyddion i gyd am eu gwaith yn ystod yr wythnos; a diolch i bawb a gyfrannodd.

'Dechreuadau'

Cynhaliwyd trydydd sesiwn 'Dechreuadau' yn Nhalybont ddydd Mercher diwethaf, a chafwyd cyfarfod da arall.

Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon sydd wedi trefnu'r gyfres hon dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynnog, Swyddog Cynnal ac Adnoddau yr Annibynwyr yn y Gogledd.

Mae un sesiwn ar ôl, a'r bwriad wedyn yw bod y rhai a fu yn y cyfarfodydd yn sôn wrth eu cynulleidfaoedd am yr hyn a gafwyd yn y cyfarfodydd er mwyn gweld beth sy'n berthnasol i'r eglwysi.

Bydd y pedwerydd cyfarfod ddydd Mercher yr wythnos hon, Mai 27, ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch.

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r eglwysi unigol ar gyfer dau sesiwn arall, sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf.